

Y Brif Feddygfa: Is-feddygfa:
Meddygfa Plas Menai **Meddygfa Llys Meddyg**
Ffordd Penmaenmawr Paradise Road
LLANFAIRFECHAN PENMAENMAWR
Conwy Conwy
LL33 0PE LL34 6AS

Ffôn: 01248 680021 Ffôn: 01492 623191
Ffacs: 01248 681711 Ffacs: 01492 622933

Gwefan: www.plasmenaihealthcentre.co.uk

 Canolfan Iechyd

Plas Menai

Health Centre

Yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith rydym yn ei wneud i leihau'r effaith wrth gau Meddygfa Llys Meddyg

Bydd Meddygfa Llys Meddyg ym Mhenmaenmawr yn cau cyn bo hir. Mae'r Partneriaid Meddyg Teulu yn gwybod y bydd 1 Mehefin 2018 – y dyddiad y bydd y feddygfa'n cau – yn ddiwrnod trist iawn i'r gymuned, i'r cleifion, i'r staff a'r Partneriaid Meddyg Teulu sydd wedi treulio cymaint o amser yno, yn ymateb i anghenion iechyd y gymuned... bydd colled fawr ar ôl y feddygfa.

Rydym yn sylweddoli y bydd hynny'n cael effaith benodol ar gleifion penodol, ac roeddem yn awyddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned am y gwaith y mae'r feddygfa wedi bod yn ei wneud gyda chynghorwyr lleol, cynrychiolwyr y bwrdd iechyd a phobl eraill yn y gymuned sy'n awyddus i'n helpu. Felly, dyma air bach am y cynnydd rydym wedi'i wneud:

Cludiant – Mae'n edrych yn bosib y byddwn ni'n gallu creu Cynllun Gyrrwr Gwirfoddol, a fydd yn helpu'r cleifion penodol hynny sy'n methu teithio i Ganolfan Iechyd Plas Menai, neu sy'n cael trafferth teithio yno. Rydym yn chwilio am Yrwyrr Gwirfoddol i'n helpu gyda'r cynllun ar hyn o bryd. Bydd ffi am ddefnyddio'r cynllun, ond bydd unrhyw gostau'n mynd tuag at gynnal y gwasanaeth, nid i wneud elw. Rydym yn gobeithio y bydd y cynllun ar waith erbyn **1af Gorffennaf 2018**. Cadwch lygad ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am hyn.

Fferyllfa Gymunedol ym Mhenmaenmawr – Rydym yn falch iawn o glywed y newyddion y bydd gan Benmaenmawr Fferylllydd Cymunedol newydd cyn bo hir. Hoffem ddymuno'r gorau i Ray a Jean ar gyfer y dyfodol, a diolch iddyn nhw am eu holl waith caled yn cefnogi'r feddygfa dros y blynyddoedd. Byddwn ni'n cydweithio'n agos â'r Fferyllwyr Lleol yn awr i wneud yn siŵr eich bod chi'n cael y gwasanaeth gorau posib.

Parcio yng Nghanolfan Iechyd Plas Menai – Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r cynghorau a'r adrannau priffyrdd lleol i ddeall pa opsiynau sydd ar gael i ni i wella'r cyfleusterau parcio yn safle Plas Menai. Mae gennym gynlluniau i wella'r maes parcio yn y cefn, a bydd y rhain yn dechrau cael eu datblygu dros y misoedd nesaf. Fodd bynnag, allwn ni ddim gwneud rhyw lawer o flaen y Ganolfan Iechyd. Felly, byddem yn gofyn i gleifion ystyried y canlynol:

1. Peidiwch â defnyddio'r lle y tu allan i'r Ganolfan Iechyd oni bai fod gennych chi Fathodyn Glas.
2. Byddwch yn ymwybodol o bobl eraill wrth barcio yn y maes parcio yn y cefn. Peidiwch â gadael gormod o le rhwng cerbydau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y maes parcio'n cael ei ddefnyddio'n llawn – mae lle i hyd at 35 o gerbydau.

Yn olaf...Ein System Apwyntiadau – Byddwn yn cyhoeddi'r newidiadau i'n system apwyntiadau a'r clinig cyn bo hir. Bydd hyn yn cynnwys clinigau hirach yn y bore a fin nos, yn ogystal â sesiynau clinig ar ddechrau'r prynhawn. Cadwch lygad ar www.plasmenaihealthcentre.co.uk.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth ar hyn o bryd.

